

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR YNH-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 26AIN O FEDI 2016 YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Bari Evans (Cadeirydd), Philip Williams, Elfed Williams, Iona Edwards-Jones, Hywel Davies, Iwan Jones, Gill Evans, Cyngorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Gwennan Hughes, Falmai Evans a Stanley Williams.

2. CADARNHAU COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfodydd 25ain o Orffennaf a 30ain o Awst 2016 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. A'r ddechrau'r cyfarfod cafwyd trafodaeth gyda Mr Philip Owen, Fferm Y Foel, Peniel ynglŷn ar gais cynllunio sydd wedi cael ei wrthod gan Gyngor Sir Ddinbych i godi adeilad amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid yn Fferm Y Foel. Derbyniwyd gwybodaeth gan Mr Owen ei fod am roi cais cynllunio newydd i sied amaethyddol bydd yn llai mewn uchder sydd yn golygu nid fydd i'w weld gan dai eraill yn yr ardal ac mi fydd y lliw yn wyrdd. Penderfynwyd yr aelodau i dderbyn y gwellau yma ac nid fydd y Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu'r cais cynllunio newydd. Diolchwyd y Cadeirydd i Mr Philip Owen am fod yn bresennol yn y cyfarfod.

B. Mae Rheolwr Gwybodaeth Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych am ail osod arwydd "Llwybr Cyhoeddus" sydd ar goll wrth Blas Dyfnog yn Llanrhaeadr.

C. Derbyniwyd adroddiad y Cyngorydd Philip Williams ei fod wedi trafod "Asesu Anghenion ac Archwilio Mannau Agored Sir Ddinbych" gyda'r Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ddinbych ers cyfarfod blaenorol y Cyngor. Mi fydd Cyngor Sir Ddinbych yn cynhyrchu mapiau newydd o'r "Asesiad" Cyngor Cymuned Llanrhaeadr gan fod yr wybodaeth ddim yn gywir.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £12,793.00.

B. Derbyniwyd ail ran o'r precept y Cyngor am 201617 - £3,992.00.

C. Taliadau:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2016 - £396.00.

2. Treth Gyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2016 - £99.00.

5. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

A: Newid defnydd y Gym, Ystafelloedd Bwyty a Chaffi ar gyfer Ystafelloedd Priodasau Achlysurol a Lleoliad Cofrestru yn The Coach House, Llanrhaeadr Hall, Llanrhaeadr.

B. Codi porth i flaen yr annedd yn 2 Maes Garnedd, Peniel.

## 6. GOHEBIAETH.

A. Mae Mr Tim Towers, rheolwr Asedau a Risg Cyngor Sir Ddinbych, yn gofyn barn y Cyngor Cymuned ar ffyrdd i'w hystyried ar gyfer gwaith cyfalaf yn ystod 2017/18.

Penderfynwyd cynnig y canlynol:-

1. Lon Drws-y-Buddel yn Saron.
2. Ffordd heibio Graig Lwyd (Prion) at Gapel Prion.
3. Allt Fferm-y-Coleg ym Mheniel.

B. Derbyniwyd gwybodaeth bod Gwasanaeth Agoriadol Swyddogol yr Amlogfa yn Llanelwy ar 17eg o Hydref 2016.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

## 7. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd y Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

1. Problem baw Cwn ar y ffordd rhwng Ysgol Bro Cinmeirch heibio'r King's Head ar ffordd heibio Cynefin tuag at Y Cymro yn Llanrhaeadr.

2. Mae yna nifer Carafannau Static wedi cyrraedd safle Carafanau Cae'r Mynydd yn Saron. A oes yna gais cynllunio un bodoli i'r Carafanau ychwanegol.

3. Mae'r glaswellt a'r gwrych ar fynediad y Llwybr Cyhoeddus wrth Gapel Saron eisiau eu tocio.

4. Gan fod Ysgolion Bro Cinmeirch a Phant Pastynog yn llawn, a oes gan yr Adran Addysg cynllun i estynni'r safleoedd ychwanegol os mae yna ychwaneg o dai yn cael eu hadeiladu yn y gymuned.

B. Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Elfed Williams bod Ysgol Bro Cinmeirch yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned tuag at gost "Diffibriliwr" yn yr Ysgol. Cytunwyd yr aelodau i gyfrannu tuag at y gost am "Diffibriliwr" yn Llanrhaeadr a Prion ac i'r Ysgol ymgynghori gyda'r W.I. Yn Llanrhaeadr sydd yn edrych i mewn i brynu'r offer hefyd.

C. Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Bari Evans fod Henry Pigott o Gae'r Felin yn hel ysbwriel yn Llanrhaeadr pob penwythnos. Penderfynwyd y Cyngor diolch iddo am ei waith dros y gymuned.

D. Penderfynwyd yr aelodau i dderbyn manylion cyfarfodydd y Cyngor trwy e-byst yn y dyfodol os ddymunir ac i'r aelodau chadarnhau cyfrifiad eu e-byst gyda'r Clerc.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 31ain o Hydref 2016 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.